

PERTHYN

Awst – Medi 2021

300



O! na byddai'n haf o hyd . . .
Tynnwyd ar y ffordd i'r capel, fore Sul 18 Gorffennaf

Gair gan y Gweinidog



Wn i ddim pa flwyddyn oedd hi ond mae gen i atgof o ddod adref o'r ysgol yn beichio crio. Yn groes i feddyliau rhai, rydw i'n gallu bod yn berson emosiynol iawn ac felly yr oeddwn y prynhawn hwnnw. Roedd hi'n ddiwedd tymor yr haf ac fel un oedd yn mwynhau mynd i'r ysgol roedd yna ryw chwithdod mawr na fyddwn yn gweld ffrindiau am saith wythnos hir. Roedd yna rywbeth arall hefyd ac efallai mai syndod y newyddion hwnnw a arweiniodd at y dagrau. 'Mae Miss Murray wedi ffonio drws nesaf; rwyt ti wedi pasio'r arholiad piano.' Gyda'r atgof yna, ac atgofion pellach am hafau'r gorffennol gyda'u gwres a'u hamdden a'u hapusrwydd, mae'r cyfan yn llifo'n ôl y dyddiau yma. Mae'r haul yn gwenu, gogoniant creadigaeth yn amlwg ac ysbryd gwyliau i'w deimlo ym mhobman. Ar y naill law mae yna ryw obaith mawr i'w ddarganfod yn y cyfan, ar y llaw arall yr ymdeimlad yna o bryder wrth i'r cyfyngiadau ar ein bywydau lacio. Yn gam neu'n gymwys, erbyn 7 Awst fe fydd yna lacio pellach gan awgrymu ein bod yn araf bach yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd. Ac eto mae'r newyddion dyddiol yn llawn ystadegau a ffigurau sy'n destun pryder ac ansicrwydd.

Pwy fyddai wedi dychmygu'r fath sefyllfa a phwy fyddai wedi dychmygu'r fath ymateb creadigol i'r cyfan – ymateb sy'n haeddu edmygedd a diolchgarwch. Fe welwyd newid ym mhattrwm ein gweithgareddau cymdeithasol, ym myd masnach a siopa, byd iechyd ac addysg, a'r cyfan wedi arwain at guro dwylo a gwerthfawrogi. Yn gyffredinol, prin fu'r sylw at weithgaredd yr Eglwys gan arwain ambell un i gredu na chyflawnwyd fawr ddim yn ystod y flwyddyn. Mewn

cymdeithas lle mae'r ffydd Gristnogol ar gyrion bywyd, a'r ddealltwriaeth o ymlyniad yn rhywbeth prin iawn, fe fyddai'n wir dweud bod sylwadau o'r fath yn rhywbeth hollol naturiol.

Ond os ydan ni yng nghanol bywyd a gweithgaredd yr Eglwys, mae pethau'n ymddangos yn wahanol yn ddi-os. Yn y cyswllt hwnnw mi hoffwn i roi teyrnged i bawb sydd wedi cyfrannu at fywyd y Morfa yn ystod y misoedd diwethaf. Ar y naill law bu'n flwyddyn anodd a ninnau'n gorfod dysgu byw o'r newydd, sefyllfa a arweiniodd at newidiadau a cheisio darganfod ffyrdd effeithiol o fod yn eglwys. Ni fu'r dasg yn un hawdd a rhaid cydnabod methiannau a chamgymeriadau, ond ar yr un pryd sylweddoli mai dysgu y mae rhywun drwy'r amser ac y byddwn yn parhau i wneud hynny. Addaswyd patrwm ein haddoliad o wythnos i wythnos; llwyddwyd i gynnal y ddau gyfarfod wythnosol a chyfarfodydd y Gymdeithas ar Zoom a gwelwyd ymdrechion rhyfeddol a dyfeisgar i barhau a chryfhau ein gwaith gyda'r plant a'r ieuenctid. Hoffwn gyflwyno fy niolchgarwch personol i'r rheini sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau parhad bywyd y Morfa: yn flaenoriaid, athrawon Ysgol Sul, ymwelesau sy'n gweithio'n dawel a chydwybodol, ynghyd â swyddogion y Gymdeithas. Diolch hefyd i'r plant a'r ieuenctid am eu brwdfrydedd ac am ddangos agwedd iach mewn dyddiau anodd ... a diolch am gyfeillgarwch a chefnogaeth rhieni. Y mae'r rhai sy'n f'adnabod yn dda yn gwybod fy mod yn ddyn swil o ran natur ac mae dangos teimladau yn rhywbeth anodd ar adegau. Diolch i gymaint ohonoch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac yn arbennig yn dilyn ein profedigaeth teuluol. Gan fy mod mor ifanc pan gollwyd fy nhad, 'roedd colli mam, a fu'n dad a mam i ni, yn ergyd ddwbwl a rhywun yn gorfod adnabod y teimladau hynny sydd ynghlwm wrth unrhyw golled. Diolch am eich cyfeillgarwch.

Pa fath o ddyfodol sydd o'n blaenau? Rwy'n credu bod yr ateb yn nwylo pawb ohonom. Fe fydd y broses o addasu'n parhau wrth i ni

geisio darganfod beth sydd orau ar ein cyfer fel eglwys. Bellach rydym yn darlledu oedfaon yn fyw o'r capel ac yn rhoi cyfle i unrhyw un ymuno. Yn fuan, gobeithio, fe fydd yna ddychwelyd i'r oedfa ond bydd y ddarpariaeth yn galluogi'r rhai sy'n methu gadael eu cartrefi i ymuno o Sul i Sul ynghyd â'r rhai sy'n ymuno o bell. Rydym bob amser yn falch i gael eich cwmni. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn adolygu ein prosesau creu a chadw cyswllt ac yn ceisio darganfod ffyrdd newydd o dystiolaethu. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y cyfan gelwir am ddoniau ac ymgysgriad pob un ohonom ynghyd ag ymdrech i ddeall o'r newydd beth yw ystyr aberth. Ond yn fwy na dim, gyda'n golygon ar Iesu, ymdrechwn i adnabod Duw o'r newydd a phrofi o'i ras a'i gariad tuag atom.

Boed i ni'r argyhoeddiad a'r gwyleidd-dra i ymateb.

Eifion



Diolch yn fawr

Diolch i Laurie a Hefina Wright am ofalu am ardd y Morlan a'i chadw'n daclus.

Hefyd diolch i Elfed ac Elsbeth Jones a fu'n chwynnu'n gyson y tu allan i adeilad Capel y Morfa ac i'r rhai fu'n gofalu am yr adeiladau yn ystod y cyfnodau clo.

Newyddion

Anfon cofion a dymuniadau gorau

Anfonwn ein cofion at Awel Jones sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion at Shelagh Jones sydd hefyd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Hefyd anfonwn ein cofion at Walford Gealy sydd yn parhau yn Ysbyty Bronglais.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Geraint a Lola Jones yng Nghartref Tregerddan ac at Celia Jones sydd wedi symud o Ysbyty Tregaron i Gartref Blaenpennal.

Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal.

Cofiwn amdanoch i gyd yn ein gweddïau.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Buddug Davies. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Terry, a'i meibion Adrian a Michael.

Cydymdeimlwn ag Eryn White ar farwolaeth ei mam, sef Mrs Bet White.

Cydymdeimlwn â Mair Hughes a'r teulu ar farwolaeth cyfnither agos i Mair, sef Mrs Dora Jones.

Cydymdeimlwn hefyd ag Enid Gruffudd a'r teulu ar farwolaeth mam Enid, sef Mrs Gwenda Griffith – nain i Eleias, Nel a Martha.

Cydymdeimlwn â Carwen Fychan a'r teulu ar farwolaeth ei brawd, Geraint Wigley.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Mary Evans sydd wedi dathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar 22 Gorffennaf.

Ymwelwyr

Diolch i'r ymwelwyr a'r aelodau a fu'n cadw cysylltiad cyson â'n haelodau pan nad oedd yn bosib ymweld â'u cartrefi.

Dymuno'n dda

Dymunwn yn dda i'r plant a'r ieuenctid ym mis Medi. Bydd rhai yn dechrau'r ysgol am y tro cyntaf, rhai yn newid ysgol, rhai yn dechrau gweithio ac eraill yn dechrau mewn colegau. Dymuniadau gorau i bob un ohonoch.

Yn y cyfamser mwynhewch y gwyliau a'r seibiant ar ôl blwyddyn anodd iawn.



Ebeneser, Penparcau

Anfonwn ein cofion at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Cofiwn yn arbennig am y rhai sydd mewn cartrefi preswyl neu yn derbyn gofal yn eu cartrefi.

Edrychwn ymlaen at gyfarfod i gyd-addoli unwaith eto ar brynhawn Sul.

Bedydd

Ddydd Sul, 25 Gorffennaf, bedyddiwyd Poli Eleisa Grace Jenkins a'i chwaer, Celyn Esmi Dorothy Jenkins, gan y Parch Eifion Roberts – merched Nia a Justin ac wyresau i Nesta Roberts. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu.

Ysgol Sul

Braf oedd cyfarfod wyneb yn wyneb yn yr awyr iach fore dydd Sul 11 Gorffennaf. Ar ôl gwahodd y teuluoedd i gyfarfod ym maes parcio Morlan aethom ymlaen i fwynhau picnic a hufen ia ar draeth y de.

Ar Suliau mis Medi, o 12 Medi ymlaen, gobeithiwn gyfarfod yn yr awyr agored. Anfonir y manylion yn nes at yr amser.



Golygyddion y mis hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Hydref PERTHYN at Rocet Arwel Jones (rocetarwel@yahoo.com) neu Sharon Owen (sharonowen527@btinternet.com) erbyn dydd Gwener, 24 Medi, os gwelwch yn dda.

Oes gennych chi hoff emyn?

Eleni mae un o brif gyfresi S4C yn dathlu pen blwydd arbennig iawn.

Mae **Dechrau Canu Dechrau Canmol yn 60 oed yn 2021** ac rydym am i chi fod yn rhan o'r dathlu trwy ddewis eich hoff emynau.

Mae panel o arbenigwyr eisoes wedi llunio Rhestr Hir o 20 emyn poblogaidd.

Ewch ati i ddewis eich hoff emyn o blith y rhestr yma. Os oes gennych sawl ffefryn mae croeso i chi bleidleisio fwy nag unwaith.



Eich pleidlais chi fydd yn penderfynu pa emyn fydd yn cyrraedd y brig.

Bydd Huw Edwards yn dathlu'r garreg filltir fawr mewn rhaglen arbennig o *Dechrau Canu Dechrau Canmol* o Neuadd Dewi Sant Caerdydd yn yr hydref pan fydd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn cyfeilio i'r emynau, a Huw yn cyhoeddi canlyniad y pŵl piniwn trwy ddatgelu'r 10 Uchaf o Hoff Emynau Cymru.

1. Dyddiad Cau derbyn pleidleisiau *Emyn i Gymru 2021* fydd hanner nos **30 AWST 2021**.
2. Gellir pleidleisio trwy wefan S4C. Os nad ydych yn gallu pleidleisio ar-lein yna cysylltwch â chwmni Rondo – **02920 223456**
3. Ni fydd S4C a Rondo yn gyfrifol am unrhyw bleidleisiau coll. Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi mewn rhaglen arbennig o *Dechrau Canu Dechrau Canmol*, nos Sul 31 Hydref, o Neuadd Dewi Sant.

Cost/gwerth celfyddyd

Ymysg nifer o ddadleuon sy wedi cymylu trafodaethau Yes Cymru'n ddiweddar mae un am iddyn nhw neilltuo cyllideb ar gyfer creu darn o theatr stryd. I'r puryddion polisi roedd hyn yn wastraff tâl aelodaeth. Ac maen nhw'n iawn i raddau. Heb weledigaeth glir, polisi i grisialu hynny a strategaeth i'w weithredu, mae'n llanast. Ond dydy Yes Cymru ddim yn brin o'r pethau hynny. Ond heb y raliâu, roedden nhw'n brin o ddrama'r lleiafrif swnllyd, lliwgar, diddorol, dadleuol yn perfformio i gynulleidfa fwy, a gwneud iddyn nhw feddwl.

Drama oedd Bws Mawr Coch Boris a'r 'lein' am £350,000,000 ar ei ochr. Llwyddodd hynny i ysgogi trafodaeth ac ennill refferendwm iddo fo.

Ond mae'n anodd gan rai, 'puryddion diddychymyg' yn aml, *fuddsoddi* mewn celfyddyd. Maen nhw'n gweld ei werth o ar ôl iddo fo ddigwydd (a hynny am y nesa peth i ddim fel arfer) ond mae buddsoddi ynddo, pan allech chi golli arian prin y tanysgrifiad, yn broblem.

Drama ydy mynd ar un lin cyn gêm bêl-droed. Poeri mae Priti Patel mai *dim ond* 'Gesture Politics' ydy o. Wrth gwrs mai dim ond gweithred ydy hi, ond mae awgrymu nad oes dim poen, gweledigaeth, polisi a strategaeth y tu ôl iddi, yn datgelu lle mae hi a'r bobl sy'n bwio yn sefyll. Mae'r ddrama, er yn hyll ar brydiau, yn symud y drafodaeth ymlaen.

A pha ddrama fwy na chiciau o'r smotyn ar derfyn gêm dyngedfennol? Miliynau'n bloeddio ar gae a sgrin i ddymuno llwyddiant a methiant mewn dognau cyfartal. Llinyn y ddrama'n dynn, dynn rhwng y penlinio ar y dechrau a'r tri bachgen ifanc yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb eithaf ar y diwedd. Ac yn methu. A'r bwio'n parhau.

Ac wedyn mae'r sylw'n troi at fath arall o gelfyddyd. At furlun ar dalcen adeilad ym Manceinion a llun arno fo o Marcus Rashford. Teyrnged i ŵr ifanc talentog oedd wedi gwneud safiad gwleidyddol o fath gwahanol cyn hynny. Liw nos fe baentiwyd dros y murlun. Ond liw dydd daeth cannoedd yno a gorchuddio'r murlun â negeseuon o gefnogaeth a chariad. Celfyddyd yn creu drama a drama'n ysgogi trafodaeth a strategaeth. Un artist yn ysgogi graffiti roddodd gyfle i gannoedd fynegi eu cefnogaeth gyhoeddus i'r hyn roedd y gelfyddyd yn ei gyfleu yn y lle cyntaf.

Pobl geiriau a nodau ydyn ni'n bennaf. Beirdd a chantorion a phregethwyr, wrth gwrs. Ond nid i anrhydeddu'r geiriau na'r nodau mae pobl yn pacio pafiliwn am yr ychydig droeon mewn wythnos eisteddfodol, ond i fwynhau'r ddrama.

Dyna lwyddodd awduron sgrïpt Crist i'w wneud. Sgrïptio'r Rali ar y Mynydd a'r dramâu bychain oedd yn creu trafod – cerdded ar ddŵr, bwydo'r miloedd, iacháu'r cleifion, atgyfodi. Lleiafrif swnllyd, lliwgar, diddorol, dadleuol yn perfformio i gynulleidfa fwy, a gwneud iddyn nhw feddwl.

Felly beth am werthu capeli a phrynu bysiau mawr coch? Neu baentio'n bocsys llwydaidd â murluniau lliwgar o arwyr ifanc sy'n bwydo plant tlawd? A phan fydd unigolion yn sgwennu pethau cas arnyn nhw, dyna gyfle i ni godi allan a chuddio'r creithiau gyda'n negeseuon o gefnogaeth a chariad.

Rocet Arwel Jones

gyda diolch i Cenn@d am gael atgynhyrchu'r myfyrdod hwn.

Silff Lyfrau

Beibl Newydd y Teulu

ISBN: 9781859949382



Cyhoeddiadau'r Gair

Addas. Cynthia Davies, Siân Eleri

Roberts

£13.99 clawr caled

Casgliad cynhwysfawr o straeon Beiblaidd yn cael eu cyflwyno mewn arddull fywiog, ar gyfer eu darllen yn uchel gyda phlant, gyda chanllawiau i rieni er mwyn gofyn cwestiynau, gosod heriau a chael trafodaeth gyda'u plant. Addasiad Cymraeg o *Lion Storyteller Family Bible* sy'n gydymaith i'r cwrs *Agor y Llyfr*.



Gair o Gysur

ISBN: 9781913996123

Gwasg y Bwthyn

Elin Angharad Davies

£9.00 clawr caled

Cyfrol hardd sy'n cynnig cysur i'r rhai sy'n galaru, neu sy'n wynebu cyfnod anodd yn eu bywyd. Mae wedi deillio o brofiadau Elin Angharad Davies, a'r dudalen

Facebook 'Gair o Gysur' a grëwyd ganddi. Mae'n cynnwys cerddi gwreiddiol o'i gwaith hi a nifer o feirdd eraill, beirdd cyfoes ar y cyfan, ynghyd â dywediadau cysurlon, addasiadau o gerddi a dyfyniadau o ganeuon poblogaidd.

Her y dyfodol

Yng nghyfarfod diwethaf y blaenoriaid, gofynnwyd i ni ddechrau meddwl am gyfeiriad yr eglwys yn y cyfnod ôl-Covid. Dyma'r cwestiynau y byddwn yn cnoi cil arnynt dros yr wythnosau nesaf gyda'r bwriad o ddechrau'r drafodaeth yn yr hydref.

- Fel eglwys, lle hoffech chi weld Capel y Morfa ymhen tair blynedd a beth sy'n realistig bosibl?
- Beth ddylai fod yn flaenoriaethau i ni fel eglwys?
- Pa gamau ymarferol y dylid eu cymryd?
- Beth yw eich breuddwydion neu eich gweledigaeth bersonol?

A dyfynnu Eifion:

'Meddyliwch am y pedwar pwynt yma yn ystod mis Awst. Dylid eu hateb yn onest a beiddgar ac yna gallwn ddechrau'r drafodaeth ym mis Hydref. Fe fydd y cyfnod nesaf yn ein hanes fel eglwys yn un heriol ac felly os oes unrhyw ddyfodol i ni yna mae'n rhaid wrth onestrwydd a chynllunio gofalus a doeth.'

Os hoffech chi fynegi barn ar y cwestiynau hyn byddai Eifion yn falch o dderbyn gair gennych. Dim ond dechrau'r drafodaeth yw hyn . . . ac mae'n drafodaeth angenrheidiol.

E-bost Eifion: eifionroberts095@btinternet.com neu anfonwch air drwy'r post i 40 Dôl Helyg, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3GZ

Yr Haf

Dduw Dad,

Diolchwn i ti fod yr haf hirddisgwylidig wedi cyrraedd;
diolchwn am yr addewid yng nghân y gwcw,
am lawnder a lliwiau natur o'n cwmpas
ac am law a haul sy'n bwydo pob tyfiant.

Gweithia dy haf ynom ninnau bob un:
glawia arnom gawodydd dy ras a'th faddeuant,
er mwyn i ninnau dyfu'n gryfach ac yn llawnach
yn ein ffydd a'n hadnabyddiaeth ohonot ti,
ac er mwyn i'n bywydau ddwyn ffrwyth
mewn gweithredoedd da.

Diolchwn am bob cyfle eleni eto
i deithio i hen gyrchfannau a mannau newydd;
gweddiwn am ddiogelwch ar ein taith,
ac am dy gariad yn ein calonnau
wrth inni gwrdd â chyfeillion hen a newydd,
ac arwain ni bob un i fannau newydd yn ein profiad ysbrydol.

Yr adeg hon o'r flwyddyn,
gyda phlant a phobl ifainc yn wynebu arholiadau,
gweddiwn drostynt yn eu pryder:
cynorthwya hwy i ddarganfod cydbwysedd
rhwng gwaith a gorffwys,
a helpa hwy i wneud eu gorau dan bwysau'r dydd,
gan gofio fod y gwerth yr wyt ti'n ei roi arnom
yn bwysicach na phrofion a safonau'r byd.

Trwy gydol yr haf,
diogela'r plant a'r bobl ifainc yn eu chwarae,
modurwyr ar eu teithiau,
ac amaethwyr ar y tir gyda'u peiriannau trwm,
a gad i ni oll deithio a gweithio'n ddiogel yn dy gwmni di.
AMEN



Casi Jones, allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

Y Gymdeithas

Noson agoriadol



Sgwrs am

CRANOGWEN (Sarah Jane Rees 1839–1916)

Un o fenywod pwysicaf ei chyfnod:

Llenor, ysgolfeistres, darlithydd, pregethwr, golygydd, morwr,
Cardi balch . . . a llawer mwy

Noson yng nghwmni yr Athro Jane Aaron

Nos Lun, 27 Medi, am 7.00 drwy gyfrwng zoom

Croeso cynnes i bawb

SULIAU AWST

1 Awst – Tomos Roberts Young (Seion) – Zoom yn unig

8 Awst – Dim oedfa

15 Awst – Eifion (Morfa) – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

22 Awst – Emyr Gwyn Evans (Seion) – Zoom yn unig

29 Awst – Dim oedfa

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch

Os hoffech fynychu'r oedfa yn y Morfa – rhowch wybod i Dai Alun ymlaen llaw ar 624160.



Cenn@d

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

Cofiwch bod modd cael y cylchgrawn Cenn@d wedi'i anfon yn wythnosol i chi yn rhad ac am ddim drwy ebost, ac mae hefyd ar gael ar wefan [Cenn@d](#) ac ar dudalen [Facebook](#) a [Trydar](#).

SULIAU MEDI

5 Medi – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

12 Medi – Gwenda Richards – Zoom yn unig

19 Medi – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

26 Medi – R. Alun Evans – Zoom yn unig

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch

Os hoffech fynychu'r oedfa yn y Morfa – rhowch wybod i Dai Alun ymlaen llaw ar 624160.

COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!

www.capelymorfa.cymru

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Trydar Capel y Morfa
@capelymorfa, a chyfri Facebook